# Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru

## CYFLWYNIAD

Grŵp Llywio'r Bartneriaeth sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am GanBwyll, sef Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru (WRCRP). Mae'r grŵp yn goruchwylio'r holl agweddau ar waith y Bartneriaeth.

GanBwyll yw partneriaeth lleihau anafiadau fwyaf y DU, ac mae'n cynnwys 28 o bartneriaid cydradd, sef Llywodraeth Cymru, 22 awdurdod unedol Cymru, y pedwar heddlu a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Mae hefyd yn gweithio'n agos iawn â phedwar Grŵp Diogelwch Ffyrdd y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno ymagwedd integredig at wella diogelwch ffyrdd gyda'r nod parhaus o leihau anafiadau ar ffyrdd Cymru.

Mae'r grŵp wedi dirprwyo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd ar gyfer gweithredu'r cynllun i Reolwr y Bartneriaeth sy'n derbyn cymorth gan staff y swyddfa reoli ac yn ogystal gan Reolwyr y Swyddfeydd Tocynnau Canolog.

## GWYBODAETH GYFFREDINOL

Nid yw Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru'n awdurdod cyhoeddus fel yr amlinellir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (mae hyn wedi'i gydnabod gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth).

Sefydlwyd WRCRP ar 1 Ebrill 2009 drwy gyfuno Partneriaeth Camerâu Diogelwch Canolbarth a De Cymru a Siwrne Saff, Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Gogledd Cymru a fu gynt yn bartneriaethau Camerâu Diogelwch a sefydlwyd yn 2000 a 2002.

Er nad yw Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru yn gorff corfforaethol, mae'n cynnwys cyrff cyhoeddus, ac felly'n cydymffurfio â pholisïau'r aelod-sefydliadau unigol. Byddwn yn cynorthwyo pobl sy'n gofyn am ddata drwy eu cyfeirio at yr awdurdod cyhoeddus sy'n cadw'r data hwnnw.

# YR WYBODAETH SYDD AR GAEL

| Cyfeirnod | Gwybodaeth | Polisïau | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **1.** | | **DATA ANAFIADAU** | |
| 1. a. | Data sylfaen ynghylch gwrthdrawiadau a/neu anafiadau ar gyfer pob safle | Cyhoeddir ar wefan y bartneriaeth drwy ddolen Chwilio am Gamerâu - cliciwch ar y llun. | Hefyd ar gael ar gais ysgrifenedig |
| 1b. | Y gwahaniaeth yn nifer y gwrthdrawiadau/ anafiadau ers i orfodaeth camera ddod i rym | Ar gael ar wefan GanBwyll | Hefyd ar gael ar gais ysgrifenedig |
| 1c. | Adroddiadau am wrthdrawiadau unigol (gan gynnwys ffactorau achosi)/data Stats 19 | Mae'r wybodaeth hon gan y bartneriaeth a gellir ei rhyddhau'n amodol ar gymeradwyaeth deilydd y data. | Ar gael hefyd o'r rhanbarth perthnasol: Heddlu De Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Dyfed Powys, Heddlu Gwent |
| 1ch. | Data sylfaen cyflymder ar gyfer pob safle | Cyhoeddir ar wefan y bartneriaeth drwy ddolen Chwilio am Gamerâu - cliciwch ar y llun. | Hefyd ar gael ar gais ysgrifenedig |
| 1.d. | Crynodeb cyflymder diweddaraf | Cyhoeddir ar wefan y bartneriaeth drwy ddolen Chwilio am Gamerâu - cliciwch ar y llun. | Hefyd ar gael ar gais ysgrifenedig |
| **2.** | | **DATA ARIANNOL** | |
| 2a. | Cyfrifon blynyddol | | Cyhoeddir ar wefan y bartneriaeth |
| 2b. | Nifer y Cosbau Penodol (CP) a dalwyd | Nid yw'r wybodaeth gan bartneriaeth GanBwyll. | Mae ar gael gan y swyddfeydd tocynnau canolog sy'n cael eu rheoli gan Heddlu Gogledd Cymru neu Heddlu De Cymru. |
| 2c. | Nifer yr Hysbysiadau o Fwriad i Erlyn a gyhoeddwyd. | Nid yw'r wybodaeth gan bartneriaeth GanBwyll. | Mae ar gael gan y swyddfeydd tocynnau canolog sy'n cael eu rheoli gan Heddlu Gogledd Cymru neu Heddlu De Cymru. |
| **3.** | | **DATA GWEITHREDOL** | |
| 3a. | Nifer y staff yn y swyddfa reoli (e.e. nifer staff yr heddlu) | | Ar gael ar gais ysgrifenedig. Siart Trefniadaeth ar gael ar y wefan. |
| 3b. | Trothwy Gorfodi | | Nid yw Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru yn gorfodi o dan drothwyau a argymhellir ACPO. |
| 3c. | Ffotograffau/delweddau fideo | | Mae ar gael gan y swyddfeydd tocynnau canolog sy'n cael eu rheoli gan Heddlu Gogledd Cymru neu Heddlu De Cymru. |
| 3ch. | Tystysgrifau Calibradu | Tystysgrifau calibradu/cydymffurfio ar wefan y bartneriaeth. | Caiff holl gamerâu'r bartneriaeth eu harchwilio gan y gwneuthurwr perthnasol yn unol â Chymeradwyaeth Math y Swyddfa Gartref. |
| 3.d. | Tystysgrifau Swyddogion | Cyhoeddir tystysgrifau hyfforddi swyddogion ar y wefan | Cyhoeddir ar y wefan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3dd. | Manylion am fandaliaeth | Rhyddhau ar gais. | Penderfynir yn ôl achosion unigol. Gall esemptiadau o dan Ddeddf RhG 2000 fod yn berthnasol |
| 3e. | Ymholiadau am broses cymeradwyo math | Mae'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd ar wefannau cyhoeddus | gwefannau ACPO a'r Swyddfa Gartref |
| 3.f. | Llawlyfrau Cyfarpar | Mae'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd ar wefannau cyhoeddus | Cyfeirio at y gwneuthurwr perthnasol |
| 3.ff. | Asesiadau Iechyd a Diogelwch/Risg | Nid yw'r wybodaeth gan Barnwriaeth GanBwyll. | Dylid gwneud cais i'r Heddlu lle lleolir y camera. |
| 3.g. | Gorchmynion Rheoleiddio Traffig | Nid yw'r wybodaeth gan Bartneriaeth GanBwyll. | Cysylltwch â'r Awdurdod Lleol/Asiantaeth Cefnffyrdd perthnasol |
| 3ng. | Siart Trefniadaeth | Ar y wefan. | Cyhoeddir ar y wefan |
| 3h. | Dyddiad cymeradwyo camerâu. | | Ar gael ar gais ysgrifenedig. |
| 3i. | Nifer y camerâu | | Ar gael ar gais ysgrifenedig. |
| 3l | Nifer yr amgaeadau | | Cyhoeddir ar y wefan |
| 3.ll | Arolygon barn gyhoeddus | | Ar y wefan ac ar gael mewn copi caled a thrwy e-bost. Ar gael ar gais ysgrifenedig. |
| 3m. | Datganiad Cenhadaeth (Nod) | | Ar y wefan. |
| 3n. | Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | | Cyhoeddir ar y wefan ond â chaniatâd yr awdurdod cyhoeddus sy'n dal y data yn unig. |

## SUT RYDYM YN DARPARU GWYBODAETH

Bydd gwybodaeth a restrir yn y cynllun ar gael mewn sawl ffordd. Mae'n bosib na fydd o angenrheidrwydd ar gael ym mhob un o'r ffyrdd hyn.

**Gwefan:** Bydd gwybodaeth ar gael ar ein gwefan, i'r graddau y mae hynny'n bosib. Rhoddir dolenni o'n gwefan i wefannau perthnasol eraill. Cyfrifoldeb y sefydliad hwnnw yw'r wybodaeth a ddarperir ar unrhyw safle cysylltiedig.

**Drwy'r post:** Anfonir gwybodaeth drwy'r post ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt isod i anfon eich ceisiadau. Nid ydym yn darparu dogfennau wedi'u hargraffu o wefannau sefydliadau eraill ac mae'n bosib y codir tâl gweinyddol am unrhyw ddogfennau a anfonir.

**Drwy e-bost:** Rydym yn derbyn ceisiadau drwy e-bost, ond pan fydd ymgeisydd yn gofyn am wybodaeth nad yw ar gael yn electronig, bydd rhaid i'r ymgeisydd roi cyfeiriad post. Dyma'r unig broses y mae'r Bartneriaeth yn ei defnyddio i danfon gwybodaeth gyhoeddedig nad yw'n electronig at ymgeisydd.

## COST AM WYBODAETH A DDARPERIR

Fel arfer, ni fyddwn yn codi tâl am ddarparu gwybodaeth. Fodd bynnag, mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn caniatáu i ni feintoli'r gwaith a wnaed wrth ddarparu gwybodaeth a chodi taliadau penodol.

Os yw'r awdurdod cyhoeddus yn amcangyfrifo na fydd yr wybodaeth y gofynnir amdani ar gael drwy ymdrechion rhesymol a bydd angen o leiaf 18 awr neu fwy i'w

phrosesu ac ymchwilio iddi, nid oes rhaid iddo ddarparu'r wybodaeth (Adran.12(1), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000), a bydd yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i'w hysbysu yn unol â hynny. Bydd yr hysbysiad o wrthod yn hysbysu'r ymgeisydd o'r dewisiadau posib, a allai gynnwys talu ffi, er mwyn i'r ymgeisydd unigol eu hystyried.

## MYNEDIAD I WYBODAETH BERSONOL DAN DDEDDF DIOGELU DATA 1998

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gweithredu ochr yn ochr â Deddf Diogelu Data 1998. Mae'r Ddeddf Diogelu Data'n parhau i amddiffyn hawliau'r unigolyn o ran rhyddhau gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol i ni wahaniaethu rhwng ceisiadau a wnaed dan delerau Deddf Diogelu Data 1998 a'r rhai a wnaed dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os ceir cais am gopi o unrhyw ddata personol a ddelir am unigolyn, yna fe'i hystyrir yn 'gais gan wrthrych y data', a chyfeirir pob ymholiad o'r fath i'r Swyddog Diogelu Data. Dylid cyfeirio cais am wybodaeth o'r fath at y Swyddog Diogelu Data yn un o'r canlynol:

| Pencadlys Heddlu Dyfed | Pencadlys Heddlu Gwent | Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru | Pencadlys Heddlu De Cymru |
|---|---|---|---|
| Blwch Post 99<br>Llangynnwr<br>Caerfyrddin<br>SA31 2PF | Pencadlys Heddlu Gwent<br>Croesyceiliog<br>Cwmbrân<br>NP44 2XJ | Glan-y-Don<br>Heol Abergele<br>Bae Colwyn<br>LL29 8AW | Heol y Bont-faen<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 3SU |

## GWEITHDREFN GWYNO

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y cafodd eich cais ei drin, a/neu ar y penderfyniad a'r rhesymau dros beidio â datgelu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani neu ran ohoni, mae gennych hawl i apelio.

Yn y lle cyntaf, caiff eich cais ei ailystyried gan y swyddog a ymdriniodd â'r cais am wybodaeth. Os, ar ôl ystyriaeth ofalus (o'r cais gwreiddiol ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd), bydd y swyddog hwnnw'n penderfynu bod ei benderfyniad yn un cywir, caiff eich cwyn ei throsglwyddo'n awtomatig i'r Swyddog Adolygu, a fydd yn cynnal adolygiad pellach. Os na fydd ein system gwynion fewnol yn eich bodloni, cewch wybodaeth ynglŷn â mynd â'ch cwyn ymhellach.

Y Comisiynydd Gwybodaeth sy'n gyfrifol am orfodi gweithrediad y cynllun cyhoeddi. Mewn achosion o fethu â darparu gwybodaeth drwy'r cynllun, gallwch apelio'n uniongyrchol at y Comisiynydd Gwybodaeth ar unrhyw adeg.

Dylid anfon apeliadau at y Comisiynydd Gwybodaeth i wales@ico.gsi.gov.uk neu drwy'r post i:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

## MANYLION CYSWLLT

Dylid defnyddio'r cyfeiriadau canlynol lle cyflwynir ceisiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn uniongyrchol i'r heddlu.

| | |
|---|---|
| Uned Rhyddid Gwybodaeth,<br>Gwasanaethau Corfforaethol,<br>Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru,<br>Glan-y-Don,<br>Bae Colwyn,<br>Conwy,<br>LL29 8AW<br>E-bost:<br>freedomofinformation@north-wales.police.uk | Swyddog Rhyddid Gwybodaeth<br>Pencadlys Heddlu De Cymru<br>Heol y Bont-faen<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 3SU<br>E-bost: foi@south-wales.pnn.police.uk |
| Swyddog Rhyddid Gwybodaeth<br>Ystafell 276<br>Heddlu Gwent<br>Pencadlys yr Heddlu<br>Croesyceiliog<br>Cwmbrân<br>NP44 2XJ<br>E-bost foi@gwent.pnn.police.uk | Adran Diogelu Data<br>Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys<br>Blwch Post 99<br>Llangynnwr<br>Caerfyrddin<br>SA31 2PF |

Am geisiadau rhyddid gwybodaeth ar ddirwyon ac arnodiadau trwyddedau, cysylltwch â'r canlynol:

| |
|---|
| Uned Mynediad i Ddata a Chydymffurfio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>6ed Llawr, Ardal Bost 6.25<br>102 Petty France<br>Llundain<br>SW1H 9AJ |

Mae HMCTS eisoes yn darparu amrywiaeth o wybodaeth, a chyn ystyried cyflwyno cais, dylech chwilio am yr wybodaeth ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (gan ddefnyddio'r blwch chwilio'r safle ar dudalen polisi Rhyddid Gwybodaeth a gwirio'r Cynllun Cyhoeddi)

Os nad ydych yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth rydych yn chwilio amdani, gallwch gyflwyno cais drwy anfon e-bost i'r Uned Mynediad i Ddata a Chydymffurfio (DACU) yn data.access@justice.gsi.gov.uk. neu drwy ysgrifennu i DACU yn y cyfeiriad uchod.